Cabiau Diogel

Pecyn Cymorth er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio cabiau bychain sydd heb eu trwyddedu

Cynnwys:

Pennod 1	Datganiad o ddiben – nodau ac amcanion y Fenter
Pennod 2	Materion i'w hystyried cyn gweithredu Menter
Pennod 3	Gweithredu Menter Cabiau Diogel
Atodiad 1	Nodiadau hwyluso i'w defnyddio gyda'r Fideo
Atodiad 2	Taflen a ddefnyddiwyd yn y Prosiect Peilot
Atodiad 3	Datganiad Drafft i'r Wasg
Atodiad 4	Cardiau Cabiau Diogel

Pennod 1

Cyflwyniad – nodau ac amcanion y Fenter

Her Iechyd Cymru

1. Dewiswyd themâu allweddol Her Iechyd Cymru gan eu bod yn cael eu hystyried fel y materion sy'n gyfrifol am gyfran sylweddol o'r anhwylderau y gellid eu hosgoi. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr yn gyfyngedig nac yn hollgynhwysfawr, ac mae'r her yn ymestyn i gynnwys ymyriadau eraill sy'n hybu ac yn gwella iechyd a lles. Mae'r ymyriad hwn yn ceisio lleihau'r risg i ddiogelwch personol a lles defnyddwyr tacsis a cherbydau hurio preifat drwy annog pobl i ddefnyddio cerbydau a gyrwyr trwyddedig. Wrth wneud hynny mae'n ceisio lleihau'r risg o ymosodiadau ar ddefnyddwyr cerbydau a lladradau oddi arnynt ac yn pwysleisio mai defnyddio cerbyd trwyddedig yw'r dewis diogelaf. Mae'r ymyriad felly'n gydnaws ag amcanion Her Iechyd Cymru.

2. Mae pobl sy'n teithio mewn tacsis a cherbydau hurio preifat yn agored iawn i niwed. Maent yn mynd i mewn i gerbyd ac yn gofyn i'r gyrrwr fynd â hwy i le penodol, ac o hynny ymlaen maent yn dibynnu ar y gyrrwr i fynd â hwy yno'n ddiogel. Fodd bynnag, mae risgiau ynghlwm wrth system o'r fath. Gallai gyrrwr y cerbyd ymosod ar y teithiwr neu ddwyn ei arian ac yna'i adael mewn man anghyfarwydd. Mae risg amlwg o anafiadau corfforol, trosglwyddo heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a beichiogi heb ddymuno hynny yn ogystal â'r effeithiau andwyol y mae ymosodiadau o'r fath yn eu cael ar les ac iechyd meddyliol y teithiwr.

3. Mae trefniadau trwyddedu llym ar gyfer y diwydiant tacsis a cherbydau hurio preifat. Mae'n rhaid i'r cerbydau a'r gyrwyr gael eu trwyddedu gan yr awdurdod lleol. Rhaid i'r gyrrwr fodloni'r awdurdod lleol ei fod yn berson cymwys a phriodol i ddal trwydded a rhaid i'r cerbyd fod wedi pasio profion diogelwch llym. Cynlluniwyd y profion hyn er mwyn sicrhau diogelwch y teithwyr sy'n defnyddio'r cerbydau. Os bydd unigolyn yn gwneud cais am drwydded gyrrwr tacsi neu gerbyd hurio preifat, ac yntau wedi ei gael yn euog o drosedd lle'r achoswyd gwir niwed corfforol, unrhyw fath o ymosodiad rhywiol neu drosedd lle torrwyd ymddiriedaeth, fel lladrad, ni roddir trwydded iddo, gan nad yw'n berson cymwys a phriodol i ymwneud ag aelodau o'r cyhoedd mewn rôl o'r fath.

4. Dylai'r trefniadau trwyddedu geisio rheoli pwy sy'n cael bod yn yrrwr tacsi neu gerbyd hurio preifat, ond nid yw'n atal y rhai hynny sy'n dewis mynd y tu allan i'r trefniadau rhag cael mynediad i'r diwydiant. Yn 2003 cynhaliodd Awdurdod Llundain Fwyaf a'r heddlu ymgyrch i geisio dal cabiau mini anghyfreithlon yng nghanol Lundain ac arestiwyd 77 o bobl mewn pedwar diwrnod. Er Mehefin 2002, mae'r heddlu yng nghanol Llundain wedi arestio cyfanswm o 1500 o bobl am droseddau sy'n gysylltiedig â chabiau mini heb eu trwyddedu, gan gynnwys 600 am fynd o amgylch yn chwilio am gwsmeriaid er Ebrill 2004[1]. Ar ben hyn, mewn ymgyrch yn 2005 roedd gan

dros hanner y gyrwyr cabiau mini a arestiwyd gofnodion troseddol, gan gynnwys collfarnau yn gysylltiedig ag ymosodiadau ac ymosodiadau rhywiol. Dengys ffigyrau o Weriniaeth Iwerddon bod ymosodiadau difrifol ar deithwyr gan yrwyr tacsi wedi cynyddu'n aruthrol ers dadreoli'r diwydiant 3 blynedd yn ôl. Roedd y troseddau eraill yn cynnwys codi gormod o ffi a delio mewn cyffuriau[2]. Mae Scotland Yard yn ofni y gallai gwir nifer yr ymosodiadau ar deithwyr fod bum gwaith gymaint â'r hyn a gofnodwyd, gan nad yw achosion o'r fath yn cael eu dwyn i sylw'r heddlu bob amser.

5. Mae alcohol yn cynyddu'r tebygolrwydd o gymryd risg e.e. drwy fynd i mewn i gab mini heb ei drwyddedu. Dywedodd merched ifanc rhwng 18 a 24 oed wrth ymchwilwyr eu bod yn fwy tebygol o fynd i mewn i gab mini heb ei drwyddedu pan oeddent wedi meddwi, er eu bod yn gwybod eu bod yn cymryd risg[3].

6. Cynlluniwyd y fenter hon er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth darpar deithwyr mewn tacsis a cherbydau hurio preifat o beryglon defnyddio cerbydau heb eu trwyddedu. Mae'n darparu gwybodaeth a fydd yn eu helpu i wneud dewis 'diogel', a thrwy wneud hynny'n lleihau'r risg o ymosodiad neu ladrad, yn cadw pobl rhag niwed a rhag y risg o drosglwyddo clefydau ac yn hybu iechyd a lles. Mae'r fenter hon felly'n cefnogi nodau Her Iechyd Cymru.

[1] Ffigurau Swyddfa Maer Llundain.
[2] NTDU Gweriniaeth Iwerddon 2005. Dyfynnwyd o bapur newydd yr *Irish Independent*.
[3] Engineer R, Phillips A, Thompson J a Nicholls J. Home Office Research Study 262**.** Drunk and disorderly: a qualitative study of binge drinking among 18- to 24-year-olds

Pennod 2

Cabiau Diogel – Materion i'w hystyried cyn sefydlu Menter

1. Ystyriaethau cychwynnol

Mae angen rhoi sylw i ystyriaethau penodol cyn dechrau ar y prosiect hwn, gan gynnwys;

a. Beth yw'r grŵp targed?
b. A fydd yr ymyriad yn sicrhau'r canlyniad bwriedig?
c. Sut y gellir cyrraedd y grŵp targed?
d. Pwy yw'r partneriaid allweddol yn y fenter?
e. Sut fydd y fenter yn cael ei gwerthuso?
f. A fydd y fenter yn cynnig gwerth am arian?

2. Grŵp Targed

Gallai unrhyw unigolyn sy'n defnyddio cab mini heb ei drwyddedu fod mewn perygl. Mae pob defnyddiwr posib yn grŵp targed rhy fawr i'w reoli, felly awgrymir bod angen dewis grŵp targed mwy cyfyngedig. I ddibenion y prosiect peilot dewiswyd grwpiau mewn ysgolion gan fod adnodd ar gael yn barod, sef fideo a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Addysg fel un addas i'w ddefnyddio gyda phobl ifanc yn eu harddegau. Fodd bynnag, gellid dewis grwpiau eraill o ddefnyddwyr, fel colegau, grwpiau merched neu grwpiau o bobl hŷn, gan ddibynnu ar flaenoriaethau lleol. Mae'n hanfodol bod modd rheoli'r grŵp a bod modd cysylltu â hwy fel grŵp, er mwyn rhoi cyflwyniadau a chael trafodaethau yn ymwneud â'r prosiect mewn grwpiau.

3. Sicrhau'r canlyniad bwriedig

Mae'r ffactorau sy'n arwain at ddefnyddio cabiau mini sydd heb eu trwyddedu yn cynnwys y canlynol:

- Diffyg ymwybyddiaeth o'r trefniadau ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat trwyddedig
- Tybiaeth bod rhywun 'yn ddiogel mewn criw' er ei fod yn ymwybodol o'r risg
- Yfed gormod o alcohol a gwneud penderfyniadau annoeth
- Methu â chynllunio ar gyfer diogelwch
- Diffyg gwybodaeth leol am safleoedd tacsi, rhifau ffôn cwmnïau hurio preifat ac ati
- Cyfuniad o bob un o'r uchod.

Nid yw'r rhestr hon yn gyfyngedig nac yn hollgynhwysfawr.

Mae angen rhoi sylw i gynifer ag sy'n bosib o'r ffactorau er mwyn sicrhau bod nod bwriedig yr ymyriad yn cael ei gyflawni.

4. Cyrraedd y Grŵp Targed

Er mwyn i'r fenter fod yn llwyddiant mae angen i'r grŵp targed fod ar gael mewn lleoliad lle gall y rhai sy'n bartneriaid yn y prosiect eu cyfarfod a hybu'r negeseuon Cabiau Diogel. Defnyddiwyd disgyblion mewn ysgolion yn y prosiect peilot, fel y nodwyd ym mhwynt 2 uchod, ac o ganlyniad gellid mynd i'r ysgolion a chyfarfod y

disgyblion fel grŵp. Gellir cyrraedd grwpiau eraill e.e. pobl hŷn, mamau ifanc ac ati, drwy fynychu cyfarfodydd amrywiol fel rhai ar gyfer mamau a'u plant, Clybiau Cinio, Sefydliad y Merched neu Ferched y Wawr er mwyn rhoi sylw i'r fenter.

Bydd grwpiau eraill fel grwpiau symudol o ddynion a merched ifanc sy'n dod at ei gilydd ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol yn unig, neu siopwyr sy'n defnyddio tacsis i ddod adref ar ôl bod yn siopa yn anos i'w cyrraedd, gan nad ydynt yn grwpiau sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Awgrymir felly y dylai'r prosiect dargedu grwpiau sy'n bodoli'n naturiol i ddechrau, fel y rhai y cyfeiriwyd atynt uchod, cyn symud ymlaen at y grwpiau sy'n anos i'w cyrraedd.

O ran y grwpiau sy'n anos i'w cyrraedd, awgrymir y dylai'r ymgyrch fod yn seiliedig ar bosteri neu daflenni, gan arddangos y posteri mewn lleoliadau penodol, fel clybiau a thafarnau neu ganolfannau siopa ac archfarchnadoedd, lle gall aelodau o'r grŵp eu gweld. Gellir dosbarthu taflenni o'r safleoedd hyn, a gellid gofyn hefyd i yrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat eu rhoi i deithwyr.

5. Pwy yw'r partneriaid allweddol yn y fenter?

Y partneriaid allweddol yn y fenter hon yw adran iechyd yr amgylchedd yr awdurdod lleol (timau trwyddedu a hybu iechyd/iechyd a diogelwch), y Swyddog Diogelwch Cymunedol a Swyddog Diogelwch Cymunedol yr Heddlu ar ddechrau'r fenter. Yn ychwanegol at hyn dylid ystyried gwahodd cynrychiolydd o'r diwydiant tacsis trwyddedig ac o'r wasg leol i fod yn bartneriaid yn y fenter.

6. Sut fydd y fenter yn cael ei gwerthuso?

Bwriad y fenter hon yw cynyddu ymwybyddiaeth y grŵp targed o'r risg o ddefnyddio tacsis a cherbydau hurio preifat sydd heb eu trwyddedu. Er mwyn ei gwerthuso, mae angen cael data yn ymwneud ag ymwybyddiaeth y grŵp targed cyn ac ar ôl y fenter fel bod modd cymharu'r canlyniadau a chanfod a yw pobl yn fwy ymwybodol o'r risg.

Gellir cymharu nifer yr achosion sy'n cael eu dwyn i sylw'r Heddlu cyn ac ar ôl yr ymgyrch ymwybyddiaeth, ond mae peryglon wrth ddefnyddio'r dull hwn o werthuso. Ni fydd gan bob awdurdod heddlu ddadansoddiadau digon manwl o'r achosion a ddygwyd i'w sylw i allu darparu ffigurau ar gyfer nifer y lladradau, yr ymosodiadau, rhywiol neu fel arall, neu achosion o godi gormod o ffi ar deithwyr er mwyn gallu cymharu'r sefyllfa cyn ac ar ôl y fenter. Ar ben hyn, mae'r Heddlu'n bryderus nad oes llawer iawn o'r troseddau hyn yn cael eu dwyn i'w sylw, ac o ganlyniad nad yw'r ffigurau sydd yn eu meddiant yn rhoi darlun cywir o bosib o'r sefyllfa. Os hynny, rhaid bod yn ofalus iawn wrth ddefnyddio ffigurau o'r fath i werthuso'r fenter.

Dylid nodi hefyd bod ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth yn aml yn arwain at gynnydd yn nifer yr achosion sy'n cael eu dwyn i sylw'r heddlu, ac nad cynnydd yn nifer yr achosion sy'n cael ei adlewyrchu o reidrwydd, ond cynnydd yn hytrach mewn ymwybyddiaeth y dylid dwyn achosion o'r fath i sylw'r heddlu. Gellid defnyddio cynnydd yn nifer yr achosion sy'n cael eu dwyn i sylw'r heddlu fel arwydd bod pobl yn fwy ymwybodol o'r risgiau o ganlyniad i'r ymgyrch, ond dylid cofio y gallai'r ffigurau ar gyfer y troseddau y rhoddwyd gwybod amdanynt ar ôl y fenter fod yn adlewyrchiad cywir o'r

troseddau sy'n bodoli yn yr ardal hon, yn hytrach na chynnydd mewn ymddygiad anghyfreithlon, er mwyn tawelu ofnau ymhlith y cyhoedd bod troseddau ar gynnydd.

7. A fydd y fenter yn cynnig gwerth am arian?

Mae'r costau y mae'r heddlu'n eu hwynebu wrth ymchwilio i droseddau sy'n deillio o ymosodiadau ar deithwyr sy'n defnyddio cabiau mini heb eu trwyddedu yn uchel iawn. Dengys ffigurau'r Swyddfa Gartref ar gyfer 2003/4 bod cost gyfartalog ymchwilio i drosedd rhywiol yn £31,438, bod cost gyfartalog ymchwilio i achos o anafu difrifol yn £21,422 a bod cost ymchwilio i honiad o ladrata oddi ar berson yn £844.

Mae'r gost bersonol i ddioddefwyr yr ymosodiadau'n sylweddol hefyd. Fel y nodwyd, mae effeithiau difrifol ar iechyd meddwl dioddefwyr troseddau ac ar eu bywyd personol a gallai'r cyfan amharu ar eu gallu i fyw bywyd llawn. Mae'n bosib hefyd y bydd gwariant personol ar therapi i'w helpu i ddod dros y digwyddiad, ac ar ben hynny mae'n bosib y bydd costau meddygol os yw'r dioddefwr wedi dal haint a drosglwyddir yn rhywiol o ganlyniad i'r ymosodiad.

Nid yw'r fenter sy'n cael ei hawgrymu yn gostus i'w rhedeg. Costiodd y prosiect peilot £1,500, a defnyddiwyd yr arian hwn i brynu 10 fideo, trefnu lansiad y fenter a chynllunio ac argraffu'r posteri a'r taflenni.

Yn dilyn hyn, awgrymir bod y fenter hon yn cynnig gwerth am arian o safbwynt ariannol ac o safbwynt lles.

Pennod 3

Cabiau Diogel – Gweithredu Menter

Yr Ymgyrch

Ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio cabiau mini heb eu trwyddedu.

Camau rhagarweiniol

1. Mae llawer iawn o waith paratoi ar gyfer y fenter hon, a dylid ei wneud mewn da bryd cyn dechrau ar y fenter. Bydd angen i broses gynllunio gychwynnol benderfynu ynglŷn â'r canlynol:

    - Y grŵp targed
    - Y safleoedd lle gellir dod i gysylltiad â'r grŵp targed
    - Pa fath o negeseuon sydd i'w hyrwyddo
    - Pa fath o ddeunyddiau sydd eu hangen ac ym mha ffurf y dylid eu darparu
    - Dyddiad dechrau'r fenter ac am faint o amser y dylai bara.

2. Mae'r grŵp targed a ddewisir yn bwysig. Rhaid i'r grŵp gynnwys unigolion a fyddai'n debygol o ddefnyddio tacsis a cherbydau hurio preifat ac y gellid sefydlu pwynt cyswllt â hwy. Awgrymir y dylid dewis grwpiau ar y sail eu bod yn cyfarfod mewn man neu leoliad lle gall swyddogion sy'n ymwneud â'r prosiect eu cyfarfod a siarad gyda hwy am y prosiect. Gallai hyn fod mewn ysgolion neu undebau myfyrwyr, mewn cyfarfodydd rheolaidd e.e. mewn canolfannau cymunedol neu neuaddau eglwysi. Rhaid derbyn i ryw raddau y bydd rhai unigolion a allai fod yn perthyn i grŵp a fyddai'n cymryd risg, e.e. merched sengl sy'n teithio yn hwyr yn y nos, grwpiau symudol o yfwyr ifanc ac ati, nad ydynt yn perthyn i'r grwpiau hyn, ond mae hynny'n anorfod.

3. Mae angen bod yn ofalus wrth benderfynu pa negeseuon y dylid eu trosglwyddo. Dengys tystiolaeth y gall rhoi mwy o sylw i droseddau ac ymddygiad troseddol wneud i bobl fod yn fwy ofnus nag y mae angen iddynt fod, tra bo'r risg y cyflawnir trosedd yn eich erbyn yn llawer is. Mae tacsis a cherbydau hurio preifat yn sicr yn darparu gwasanaeth defnyddiol i'r defnyddwyr, ac ni ddylai'r negeseuon sy'n cael eu hannog wneud i bobl ofni defnyddio cerbydau trwyddedig. Dylai'r neges danlinellu'r risgiau y *gallai* rhywun fod yn eu cymryd drwy ddefnyddio cabiau mini heb eu trwyddedu, ond ni ddylent fod mor frawychus fel eu bod yn gwneud i bobl beidio â defnyddio tacsis yn gyffredinol.

4. Mae'r deunydd sydd i'w ddefnyddio yn fater pwysig. Yn y prosiect peilot defnyddiwyd tâp fideo, gan ategu'r neges â nodiadau ar bapur i'r defnyddiwr. Mae'r tâp yn dangos senario lle bo unigolyn yn cymryd risg fawr drwy ddefnyddio cerbyd heb ei drwyddedu, a gwahoddir y grŵp i drafod y risgiau y mae pobl yn eu cymryd, sut y gellir lleihau'r risg, a chynllunio ar gyfer ymddygiad diogel. Cynhyrchwyd y tâp fideo a ddefnyddiwyd yn y prosiect peilot gan adran

drwyddedu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Gellir prynu copi o'r tâp drwy gysylltu ymlaen llaw â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf: Tantrwm, Video and Multimedia Experts, 45F Oxford Street, Aberdâr, Ffôn: 01685 886546. Mae'r nodiadau hwyluso a ddefnyddiwyd gyda'r fideo yn y prosiect peilot i'w gweld ynghlwm fel Atodiad 1. Gellid hybu'r negeseuon a ddewiswyd mewn ffyrdd eraill e.e. drwy ddefnyddio cyflwyniadau PowerPoint, drwy bosteri a thaflenni a thrwy lywio trafodaeth. Mater i benderfynu arno'n lleol fydd hwn ar sail natur y grŵp targed a'r adnoddau sydd ar gael.

5. Mae amseriad y prosiect hefyd yn fater pwysig. Mae rhai cyfnodau pan fo mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o dacsis, e.e. o amgylch y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, ac mae'n bosib y bydd tacsis yn brin a galw mawr amdanynt. Gellir nodi adegau prysur eraill. Mae lleoliadau hefyd lle gwneir llawer o ddefnydd o dacsis e.e. yng nghanol trefi neu o amgylch clybiau nos. Efallai y bydd y rhai hynny sy'n bartneriaid yn y prosiect hwn yn teimlo y dylid targedu lleoliad penodol, a dechrau neu gynnal y prosiect dros gyfnod penodol er mwyn cael mwy o effaith. Awgrymir y dylid diffinio'r cyfnod y bydd yr ymyriad yn cael ei weithredu fel bod modd cymharu achosion honedig wrth werthuso'r prosiect.

Gweithredu'r Fenter

6. Dechreuir y fenter drwy gyfarfod y grŵp targed a hybu'r negeseuon a ddewiswyd drwy ba gyfrwng bynnag a ddewiswyd. Fel y nodwyd, rhaid gochel rhag codi ofn wrth hybu'r neges. Efallai y byddai awdurdodau lleol yn hoffi ystyried rhaglen orfodi wedi ei thargedu a fyddai'n cael ei gweithredu yr un pryd â'r fenter, er mwyn sicrhau nad yw pobl yn ystyried rhedeg tacsi heb drwydded, a chanfod ac erlyn gyrwyr a gweithredwyr cabiau mini heb eu trwyddedu. Gellid gweithredu'r rhaglen orfodi hon ar y cyd â'r Heddlu. Awgrymir ei bod yn werth defnyddio'r cyfryngau lleol er mwyn tynnu sylw at yr ymgyrch a'r rhaglen orfodi, a fydd yn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith defnyddwyr tacsis, ond a fydd hefyd yn dangos i'r cwmnïau tacsis a gweithredwyr cerbydau hurio preifat lleol bod yr awdurdod lleol yn cymryd camau er mwyn rhwystro cabiau mini heb eu trwyddedu rhag gweithredu yn yr ardal.

Cyrraedd y rhai hynny nad ydynt yn rhan o'r Grŵp Targed

7. Cydnabyddir ei bod yn bosib bod unigolion nad ydynt yn rhan o'r grŵp targed yn ymddwyn mewn ffordd sy'n eu rhoi mewn perygl drwy ddefnyddio cabiau mini heb eu trwyddedu. Gallai'r unigolion hyn fod yn ferched sy'n teithio ar eu pennau eu hunain yn hwyr yn y nos, pobl ifanc nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau mor ddoeth gan eu bod dan ddylanwad alcohol ac ymwelwyr nad ydynt yn adnabod yr ardal. Gan fod y grŵp hwn yn symudol mae'n anodd cysylltu â'r aelodau. Awgrymir felly y dylid gofyn i gwmnïau tacsis a gweithredwyr cerbydau hurio preifat trwyddedig ddosbarthu taflenni i'w cwsmeriaid sy'n amlinellu'r risg o ddefnyddio cerbydau heb eu trwyddedu. Efallai y gallai taflenni o'r fath gael eu noddi gan gwmnïau a gyrwyr trwyddedig ac y gellid rhoi enwau'r cwmnïau arnynt, fel bod y bobl sy'n derbyn y taflenni'n gallu eu cadw er mwyn cael y rhif rywbryd eto. Gellir rhoi'r taflenni hefyd yng nghanolfannau'r awdurdod lleol, mewn tafarndai ac mewn gorsafoedd rheilffordd neu orsafoedd bysys, yn ogystal â lleoliadau eraill y gallai unigolion neu grwpiau fod yn dal tacsis ohonynt. Mae'r daflen a ddefnyddiwyd yn y prosiect peilot i'w gweld ynghlwm fel Atodiad 2 ac

mae'r datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd i'w weld fel Atodiad 3, mae'r cardiaui'w gweld ynghlewm fel Atodiad 4.

Gwerthuso a monitro

8. Ar ddiwedd y cyfnod a ddewiswyd ar gyfer yr ymyriad rhaid gwerthuso ei effeithiolrwydd. Fel y nodwyd ym Mhennod 2 mae nifer o ddulliau gwerthuso y gellir eu defnyddio. Gellir ystyried defnyddio ffigurau ar gyfer troseddau y rhoddir gwybod amdanynt i'r heddlu, yn amodol ar y cyfyngiadau a drafodwyd. Gellid defnyddio nifer y cabiau mini heb eu trwyddedu a ganfuwyd ac a erlynwyd hefyd fel ffordd o fesur llwyddiant – gan gymryd os oes llai ohonynt ar y ffordd bod llai o risg i'r cyhoedd sy'n teithio. Bydd cwmnïau trwyddedig a gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat fel arfer yn gallu rhoi tystiolaeth anecdotaidd ynglŷn â nifer y cerbydau heb eu trwyddedu sydd ar y ffordd mewn ardal benodol, ac a yw'r nifer yn uwch neu'n is nag o'r blaen, ond mae angen bod yn ofalus wrth ddibynnu ar dystiolaeth o'r fath.

9. Os yw'r ymyriad wedi bod yn un tymor byr gellir ystyried ei gynnal eto dros gyfnodau prysur ac o amgylch lleoliadau lle gwneir llawer o ddefnydd o dacsis er mwyn cadw ymwybyddiaeth a sicrhau'r diwydiant trwyddedig bod yr awdurdod a'i bartneriaid yn dal i gymryd y mater o ddifrif.

Atodiad 1

PECYN HWYLUSWYR

YMGYRCH CABIAU DIOGEL

WEDI EI HANELU AT BOBL IFANC DROS 15 OED

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys: -

Fideo a Nodiadau Cyfarwyddyd
Copïau o Fathodynnau Cofrestru Tacsis ac ati

NODIADAU CYFARWYDDYD

Myfyrwyr 15+ oed Amser – 45 munud

Nod:

Cynyddu gwybodaeth y myfyrwyr am ddiogelwch personol

Amcan:

Ar ddiwedd y sesiwn bydd y myfyrwyr yn gallu: -

1. Egluro sut mae tacsis/gyrwyr yn gwneud cais am drwydded
2. Disgrifio nodweddion tacsi trwyddedig
3. Rhestru'r manylion sydd eu hangen er mwyn "bwcio" tacsi trwyddedig

4. Cymharu manteision/anfanteision tacsis trwyddedig / heb eu trwyddedu.

Mae llawer o amcanion eraill sy'n ymwneud â diogelwch personol y gellid eu hystyried. Gellid datblygu'r rhain a gallent gynnwys bygythiadau a fformiwla asesu risg.

Adnoddau:

- Peiriant chwarae fideos
- Fideo CabWhys!
- Ffurflenni Cofrestru
- Bathodyn Tacsi
- Bwrdd Sych
- Papur a Phinnau Ysgrifennu

Dull:

- Hwyluso
- Trafodaeth
- Didactig

Datblygu:

Cyflwyno –
- Hunan a Phwnc
- Iechyd a Diogelwch
- Cyfle cyfartal

CHWARAE'R FIDEO

SAIB 1

CYFLWYNIAD – Nodau ac Amcanion y fideo
(Os yn briodol gellir trafod canlyniadau posib)

AILDDECHRAU'R FIDEO

SAIB 2

Archwilio a thrafod y senario. Gallai'r pynciau gynnwys: -

- Cyfathrebu
- Gwisg
- Perthynas rhwng aelodau o'r teulu
- Rheolau a chyfrifoldebau
- Trawsnewid Jenni o fod yn ferch ysgol i fod yn ferch ifanc
- Blaengynllunio
- Asesu risg

SAIB 3

Egluro a thrafod. Gallai'r pynciau gynnwys – beth mae Jenni wedi ei wneud hyd yn hyn

- "Beth mae hi wedi ei wneud a allai fod yn beryglus".
- "Beth allai hi fod wedi ei wneud".
- "Beth allai hi ei wneud nesaf".
- Pwysau Cyfoedion

AILDDECHRAU'R FIDEO

Casgliad – Crynodeb o'r fideo

- Cwestiynau agored i drafod pwyntiau a materion a godwyd
- Dangos dogfennau e.e. Bathodynnau, trwyddedau
- Profi amcanion drwy gwestiynau agored
- Cadarnhau gwybodaeth am y fenter Cabiau Diogel

Mae materion eraill sy'n gysylltiedig ag Addysg Bersonol a Chymdeithasol (A.B.Ch.) a allai godi yn ystod y sesiwn, e.e. pwysau cyfoedion, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, cyfathrebu rhwng rhieni/plant, codau ymddygiad, gwisg, cyfrifoldeb neu bynciau perthnasol eraill.

Efallai na fydd modd delio gyda phob mater sy'n codi ac efallai y bydd angen cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth addas ar gyfer y materion hyn.

NODIADAU CYFARWYDDYD

RHESTR WIRIO

- Cyfathrebu
- Perthynas rhwng Aelodau o'r Teulu
- Gwisg
- Rheolau a Chyfrifoldebau
- Blaengynllunio
- Asesu Risg
- Gwybodaeth – Niferoedd
- Cardiau Adnabod – Cerbydau/Gyrwyr
- Dogfen
- Pwy yw Aelodau'r Grŵp
- Amser Dychwelyd
- Cynllunio Llwybr
- Digon o Arian

- Gadael Aelodau o'r Grŵp ar eu Pennau eu Hunain

GYDA PHWY Y DYLECH GYSYLLTU I ROI GWYBOD AM DACSI HEB EI DRWYDDEDU

Yr Heddlu **01633 83811**1 Adran Drwyddedu **01633 644221**

Swyddog Gorfodaeth **0770857115**

Atodiad 2

Taflen a ddefnyddiwyd yn y Prosiect Peilot

Atodiad 3

Datganiad Drafft i'r Wasg

Rhagfyr 4, 2002

TEITHIWCH MEWN TACSI TRWYDDEDIG A BYDDWCH YN DDIOGEL Y NADOLIG HWN

Mae gennym ymgyrch ddidrugaredd sy'n annog pobl i gadw'n ddiogel y Nadolig hwn drwy wneud yn siŵr eu bod yn defnyddio tacsis trwyddedig.

Bydd ymgyrch Cabiau Diogel Cyngor Sir Fynwy yn tynnu sylw at y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio tacsis a cheir hurio preifat heb eu trwyddedu yn barod ar gyfer cyfnod cymdeithasol prysuraf y flwyddyn.

Mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd yr ymgyrch, sy'n cael ei chefnogi gan Heddlu Gwent a Chymdeithas Tacsis Sir Fynwy, yn gwneud i bobl feddwl ddwywaith cyn neidio i mewn i dacsis a cherbydau hurio preifat sydd heb eu trwyddedu.

Mae gyrwyr tacsis trwyddedig yn hawdd i'w hadnabod oherwydd y plât sydd ar du blaen a thu ôl y cerbyd; bydd y plât yn nodi rhif cofrestru'r cerbyd, nifer y teithwyr y mae wedi ei drwyddedu i'w cario a logo Sir Fynwy.

Cefnogir yr ymgyrch gan fideo, wedi ei hanelu'n benodol tuag at bobl ifanc, sydd i'w gwylio drwy'r rhaglen addysgu. Mae'r fideo'n dangos sut mae merch ifanc ar noson allan yn wynebu'r dewis o fynd adref yn sydyn mewn tacsi heb ei drwyddedu sy'n stopio yn ei hymyl ar y stryd neu fwcio tacsi trwyddedig ac aros am ychydig iddo gyrraedd. Mae'n gwneud y penderfyniad cywir ac yn cyrraedd adref yn hwyrach ond yn ddiogel.

Bydd yr heddlu'n defnyddio'r fideo mewn ysgolion fel sbardun ar gyfer trafodaeth. Dangosir y fideo hefyd i fyfyrwyr, pensiynwyr a chyfarfodydd Sefydliad y Merched.

Dosberthir taflenni i aelodau o'r cyhoedd yn amlinellu peryglon defnyddio tacsis heb eu trwyddedu ac yn dangos lluniau o'r platiau sy'n cael eu defnyddio ar gerbydau trwyddedig. Dangosir posteri hefyd mewn tafarnau, archfarchnadoedd, llyfrgelloedd ac yn y blaen.

Bydd Cadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd John Major, yn mynychu'r lansiad ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio, y Cynghorydd Maureen Roach.

Yn ôl y Cynghorydd Major: "Mae angen i bawb fod yn wyliadwrus am dacsis a cherbydau hurio preifat heb eu trwyddedu, yn enwedig yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig.

"Yn wahanol i yrwyr tacsi go iawn nid yw'r heddlu wedi ymchwilio i gefndir y gyrwyr hyn sydd heb eu trwyddedu, ac nid yw eu cerbydau wedi eu harchwilio. Ni fydd ganddynt yswiriant i gludo teithwyr sy'n talu ac mae'n bosib na fydd eu cerbydau yn addas i fod ar y ffordd."

“Yn waeth na hyn, cafwyd achosion mewn rhannau eraill o’r DU lle gwelwyd dynion yn cymryd arnynt eu bod yn yrwyr tacsi ac yn mynd yn eu blaenau i ymosod, i dreisio neu hyd yn oed i lofruddio eu teithwyr. Rydym eisiau i bobl fod yn gwbl ymwybodol o’r risgiau hyn.”

Mae’r ymgyrch Cabiau Diogel yn dweud wrth bobl am:

- Ddefnyddio cwmni tacsis sydd ag enw da
- Gwneud yn siŵr bod bathodyn y gyrrwr yn iawn
- Edrych ar gerdyn trwyddedu’r cerbyd
- Os ydych ar eich pen eich hun, eisteddwch y tu ôl i’r gyrrwr
- Estynnwch eich arian a’ch allweddi’n barod ar gyfer pen draw’r daith

Bydd yr ymgyrch Cabiau Diogel yn cael ei lansio am 11am ddydd Llun 9fed Rhagfyr yng Nghanolfan y Priordy, y Fenni.

Cyfle i dynnu lluniau

Bydd gyrwyr tacsis trwyddedig ar gael gyda’u cerbydau am 11.30am yng Nghanolfan y Priordy.

Tracy Burton
Swyddog Cyfathrebu
01633 644014
tracyburton@monmouthshire.gov.uk

Atodiad 4

Cardiau Cabiau Diogel